

DOES UNMAN YN DEBYG I GARTREF

Mewn sawl ystyr, mae dewis y llely iawn yn y brifysgol yn un mor bwysig a dewis y cwrs iawn. Mae'r brifysgol yn fwy na rhywle bydd eich plentyn yn astudio, bydd hefyd yn gartref iddo/iddi am y tair blynedd nesaf neu fwy.

Yn Abertawe, rydym yn cynnig sawl dewis gwahanol o ran llely, ond maen nhw i gyd yn cynnwys:

- Gwasanaeth diogelwch 24 awr
- WiFi am ddim
- Yswiriant Cynnwys AM DDIM
- Pwyntiau teledu ym mhob ystafell wely

MAE RHAI PRESWYLFYDD YN CYNNWYS Y CANLYNOL:

- Ardaloedd tawel
- Ardaloedd di-alcohol
- Ardaloedd i fyfyrwyr aeddfed
- Llety penodol i siaradwyr Cymraeg

AR GAMPWS

Mae byw mewn preswylfa ar y naill campws yn rhoi'r myfyrwyr wrth galon bywyd prifysgol.

Mae'r cyfleusterau ar ein campysau yn cynnwys:

- Siopau
- Canolfan Iechyd
- Deintyddfa
- Swyddfa'r Post
- Bwytai
- Golchdy
- Bar Undeb y Myfyrwyr
- Siop goffi

CHWARAEON ABERTAW

Mae pob myfyriwr yn elwa ar gyfleusterau chwaraeon rhagorol. Darganfyddwch fwy yn abertawe.ac.uk/chwaraeon



Campws y Bae

Y Preswylfeydd mwyaf y brifysgol gyda mwy na 2,000 o ystafelloedd ar gael. Mae'r prisiau'n amrywio o £88 - £149 yr wythnos.

Mae'r cyfleusterau'n cynnwys ystafell gyffredin gyda theledu, ceginau llawn a storfa beiciau yn yr iardiau mewnol.



Campws Parc Singleton

Mae Singleton yn cynnig amrywiaeth o lety gan gynnwys ystafelloedd en-suite.

Mae'r prisiau'n amrywio o £121 i £152 yr wythnos gydag opsiynau rhan-arlwyio ar gael.



Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan

Dim ond tair bws byr oddi wrth y ddau campws, mae'r Pentref Myfyrwyr yn cynnig amgylchedd cymunedol go iawn.

Mae'r prisiau'n dechrau am £91 yr wythnos ac yn cynnwys tocyn bws am ddim.



GWASANAETHAU CYMORTH I FYFYRWYR



TEIMLO'N DDA

Bydd ein Tim Lles ymroddedig yn gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn hapus yn y Brifysgol



CYMORTH AG ANABLEDDAU

Yn sicrhau'r un profiad i'r holl fyfyrwyr



Y MEDDYGON ARIAN

Maent bob amser ar gael i helpu â chyllidebu a chadw llygad ar arian



DEINTYDD Y BRIFYSGOL

Mae Gofal Deintyddol y Brifysgol yn cynnig ystod lawn o driniaethau'r GIG a phreifat i fyfyrwyr



DIOGELWCH

Diogelwch 24 awr

abertawe.ac.uk/bywydcampws

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth fydd cost anfon fy mhentyn i brifysgol?

Does dim rhwymedigaeth gyfreithiol i gyfrannu o gwbl; fodd bynnag, bydd Cyllid Myfyrwyr yn ystyried incwm yr aelwyd wrth gyfrifo hawl i grantiau a benthyciadau a'r cyfraniad tybiedig. Mae rhai rhieni'n dewis talu tuag at ffioedd dysgu, ac mae eraill yn helpu gyda rhent/llety neu'n talu swm penodol bob mis i gyfrif banc y myfyriwr er mwyn cynorthwyo gyda chostau byw pob dydd.

Beth yw'r costau byw wythnosol cyfartalog?

Gall gwariant amrywio, gan ddiwynnu ar y lleoliad a dewisiadau ffordd o fyw. Mae gwariant wythnosol arferol yn cynnwys gwariant ar ben costau llety a biliau, megis bwyd, cymdeithasu, ffôn, teledu a deunyddiau astudio, ac mae'r myfyriwr nodweddiadol yn gwario tua £100 yr wythnos.

Pa gymwysterau bydd eu hangen ar fy mab neu fy merch?

Mae Prifysgol Abertawe yn rhestru gofynion mynediad cyrsiau ar sail canlyniadau Safon Uwch, ond rydym hefyd yn derbyn cymwysterau eraill megis BTEC a'r Fagloriaeth Ryngwladol. Mae rhestr lawn ar gael yn ein prospectws. Mae rhai cynlluniau gradd yn gofyn am bynciau Safon Uwch penodol a bydd y manylion hyn ar gael ar dudalennau'r cyrsiau hynny ar ein gwefan ac yn ein prospectws.

Os yw fy mhentyn yn derbyn cynnig amodol ond, ar ddiwmod y canlyniadau, mae'n un radd yn brin yn unig, beth sy'n digwydd?

Adolygir ceisiadau fesul achos. Byddem yn cynghori eich plentyn i ddechrau gwirio UCAS Track yn gyntaf - mae'n bosib ei fod eisoes wedi cael ei dderbyn. Os nad oes unrhyw benderfyniad clir, dylai wirio ei negeseuon e-bost - mae'n bosib bod cwrs gwahanol wedi cael ei gynnig. Os nad oes unrhyw arwydd bod penderfyniad wedi'i wneud o hyd, dylai gysylltu â'r Tim Derbyn.

Pa drefniadau diogelwch sydd ar waith ar y campysau?

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu amgylchedd dysgu a chymdeithasol diogel ar gyfer ei myfyrwyr. Yn ogystal â staff diogelwch 24 awr, mae ein Wardeniaid Lles, a Chynorthwydd Bywyd Preswyl, ar gael i gynnig cymorth bugeiliol. Hefyd, mae Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) ar ddyletswydd ar Gampws Parc Singleton a Campws y Bae.

Os bydd fy mhentyn mewn anawsterau personol, pwy fydd yn gallu ei helpu?

Mae cymorth ychwanegol ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr ac mae ein tim ymroddedig o arbenigwyr wrth law i helpu myfyrwyr i weithio drwy unrhyw anawsterau. Mae'r Gwasanaeth Lles Myfyrwyr yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys cwnsela am ddim, cymorth dysgu ychwanegol a/neu bwrpasol yn ôl yr angen. Mae'r Meddygon Arian ar y safle i ddarparu cymorth gyda materion ariannol. Mae'r holl wasanaethau hyn yn gyfrinachol.

Pa fath o gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ag anableddau?

Mae'r Swyddfa Anableddau'n darparu ac yn cydlynu cymorth ar gyfer myfyrwyr anabl. Dysgwch sut y gallai'ch plentyn elwa o'r gwasanaethau hyn yn abertawe.ac.uk/anableddau

Beth am deithio a pharcio?

Mae rhwydwaith Unibus First Cymru yn cysylltu Campws Parc Singleton, Campws y Bae a'r ardaloedd preswyl i fyfyrwyr yn y ddinas, gan gynnwys Pentref y Myfyrwyr, Sgei, Uplands, Brynmill a chanol y ddinas. Mae hefyd bws nos sydd ar gael 24 awr y dydd (Llun i Sadwrn) yn ystod y tymor. Mae nifer cyfyngedig iawn o leoedd parcio talu ac arddangos ar gael ger y ddau campws

Dilynwch Prifysgol Abertawe:    

Holwch ni drwy e-bostio astudio@abertawe.ac.uk

FfRhA

Aur

Fframwaith
Rhagoriaeth
Addysgu



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

Canllaw i Addysg Uwch
ar gyfer Rhieni a Gwarcheidwaid

abertawe.ac.uk/rhieni

Cyflwyno Cais i BRIFYSGOL ABERTAWE

BETH YW UCAS?

UCAS yw Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (Universities and Colleges Admissions Services). Y sefydliad hwn sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau i brifysgolion y DU am leoedd ar gyrsiau israddedig.

1 YMCHWILIO I'R CWRS Gwanwyn/Haf

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn gwneud ei ymchwil ac yn dysgu mwy am yr hyn sydd gan y gwahanol brifysgolion i'w gynnig. Gan fod dewis mor eang o raglenni ar gael yn y DU, mae'n gallu bod yn dipyn o ben tost cyfyngu hyn i 5 dewis ar ei ffurflen UCAS.

Rydym yn argymhell defnyddio offeryn chwilio UCAS. Yma gallwch chwilio am yr holl brifysgolion sy'n addysgu'r pwnc sydd o ddiddordeb i chi. Ewch i wefan ucas.com i wneud hyn.

Gallwch hefyd gael gwybodaeth am gyrsiau ar wefannau'r prifysgolion. Ewch i abertawe.ac.uk/cyrsiau i weld beth sydd ar gael ym Mhrifysgol Abertawe.

2 CYNADLEDDAU UCAS Haf/Hydref

Bob blwyddyn, mae prifysgolion yn mynd â stondinau arddangos i gynadleddau lleol UCAS. Yma bydd eich plentyn yn gallu siarad â chynrychiolwyr o nifer o brifysgolion a chasglu gwybodaeth ganddynt, gan gynnwys y prospectws cyfredol. Weithiau, bydd ysgol eich plentyn yn trefnu taith ar gyfer yr holl blant sydd â diddordeb mewn mynd i'r brifysgol. Byddem yn annog eich plentyn i wneud ei ymchwil cyn mynd i un o'r digwyddiadau hyn, fel y bydd yn gwybod pa brifysgolion yr hoffai siarad â nhw.

5 DYDDIAD CAU UCAS 15 Ionawr

Mae'n rhaid bod eich plentyn wedi cwblhau a chyflwyno ei ffurflen UCAS erbyn y dyddiad hwn, ond mae dyddiadau cau rhai cyrsiau, megis meddygaeth, yn llawer cynharach, felly cofiwch wirio.

Dylech gofio hefyd bod gan lawer o ysgolion a cholegau eu dyddiadau cau mewnol eu hunain, sy'n gynharach. Mae hyn er mwyn caniatáu i athrawon ysgrifennu geirada UCAS ar gyfer eich plentyn, felly cofiwch ganiatáu digon o amser.

4 GWNEUD CAIS Medi - Ionawr

Gellir gwneud cais i uchafswm o bum sefydliad ar-lein yn UCAS.com rhwng 1 Medi a 15 Ionawr, ond rydym yn argymhell bod eich plentyn yn gwneud cais cyn gynted â phosib.

Dylai ysgol neu goleg eich plentyn gynnig cymorth gyda'r rhan fwyaf o'r broses ymgeisio. Ond, mae'n werth bwrw cipolwg yn rheolaidd ar yr adran o wefan UCAS ar gyfer rhieni, i gadw llygad ar y dyddiadau allweddol a sicrhau bod eich plentyn ar y trywydd iawn.

3 DIWRNODAU AGORED Haf/Hydref

Gallwch helpu drwy annog eich plentyn i fynd i gynifer o ddiwrnodau agored â phosib cyn gwneud cais. Mae diwrnodau agored yn ffordd wych o gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael, cwrdd â'r darlithwyr, gweld y llety, archwilio'r brifysgol a dod i adnabod yr ardal leol. Gall eich plentyn gadw lle ar-lein yn abertawe.ac.uk/diwrnodau-agored

6 DERBYN CYNIGION Ionawr - Mai

Pan fydd eich plentyn wedi derbyn cynigion, neu wrthodiadau, gan bob sefydliad y cyflwynodd gais iddo, bydd angen iddo/iddi nodi dewis cyntaf (Cadarn) neu ail ddewis (Yswiriant) a gwrthod pob cynnig arall. Yn ystod y cyfnod hwn, efallai y bydd prifysgolion yn gwahodd eich plentyn i Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr yn y sefydliad i'w helpu i benderfynu. Mae'r Diwrnodau Ymweld i Ymgeiswyr hyn yn gyfle i'ch plentyn siarad â chynrychiolwyr y pwnc a dysgu mwy am y cwrs mae wedi gwneud cais amdano. Bydd rhai cyrsiau hefyd yn gofyn i'ch plentyn ddod i gyfweiliad yn ystod y cyfnod hwn.

Dylai'ch plentyn nodi'r brifysgol sy'n apelio fwyaf fel dewis cadarn a'r dewis yswiriant fel dewis wrth gefn rhag ofn nad yw'n bodloni telerau ei gynnig.

7 GWNEUD CAIS AM GYLLID MYFYRIWR Chwefror - Mehefin

O fis Chwefror ymlaen, gall eich plentyn ddechrau gwneud cais am gyllid myfyriwr. Fel rhiant, bydd angen i chi ddarparu dogfennaeth ategol, er enghraifft prawf o incwm yr aelwyd.

I gefnogi cais myfyriwr fel rhiant neu bartner, mae'n rhaid i'r myfyriwr gofrestru a gwneud cais yn gyntaf.

Os yw'n byw yn Lloegr, bydd angen i'r myfyriwr wneud cais drwy Student Finance England, gov.uk/student-finance. Os yw'n byw yng Nghymru, bydd angen gwneud cais drwy Gyllid Myfyrrwyr Cymru, cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk



10 COFRESTRU Diwedd mis Medi

Mae myfyrwyr yn cofrestru ym Mhrifysgol Abertawe tua diwedd mis Medi. Mae'r wythnos gyntaf ar y campws yn gyfle i fyfyrwyr ymgartrefu, cofrestru'n swyddogol ar eu cyrsiau a dewis eu modiwlau. Bydd y darlithoedd yn dechrau'r wythnos wedyn.

9 CANLYNIADAU ARHOLIADAU Awst

Os yw'ch plentyn yn bodloni telerau ei gynnig, fydd dim angen gwneud unrhyw beth arall. Byddwn yn ei dderbyn yn awtomatig drwy UCAS a chaiff cyfarwyddiadau cofrestru eu hanfon ar ddiwedd mis Awst.

8 GWNEUD CAIS AM LETY Ebrill - Mehefin

Pan fydd eich plentyn wedi nodi ei ddewis cadarn neu yswiriant, ac wedi gwneud cais am gyllid myfyriwr, bydd yn bryd dechrau rhoi popeth yn ei le ar gyfer mis Medi. Mae ceisiadau am lety yn agor ym mis Chwefror a dylech chi ymgeisio cyn gynted â phosib. Rydym yn gwarantu ystafell i'r holl fyfyrwyr sy'n cadarnhau eu bod yn derbyn eu cynigion gan Brifysgol Abertawe erbyn diwedd mis Mehefin. Dylai myfyrwyr dewis yswiriant hefyd wneud eu ceisiadau am lety mor gynnar â phosib er mwyn cynyddu eu cyfle i sicrhau lle yn un o breswylfeydd y Brifysgol.

CYLLID AC YSGOLORIAETHAU

Am y wybodaeth ddiweddaraf ar ffioedd a chyllid, ewch i abertawe.ac.uk/israddedig/ffioedd-a-chyllid

YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae Abertawe'n cynnig ystod o ysgoloriaethau, gan gynnwys £3,000 am Ragoriaeth Academiaidd ac am Lwyddiant Chwaraeon, ynghyd â rhai bwrsariaethau ar sail incwm. Am fwy o wybodaeth, ewch i: abertawe.ac.uk/ysgoloriaethau

£3,000
YSGOLORIAETHAU RHAGORIAETH
am AAA ar Lefel Uwch

£2,000
YSGOLORIAETHAU TEILYNGDOD
am AAB ar Lefel Uwch

HYD AT £3,000
Y FLWYDDYN
AM LWYDDIANT
CHWARAEON

**YSGOLORIAETHAU
CERDDOROL**
HYD AT
£1,000
Y FLWYDDYN.

GWAITH RHAN-AMSER AC YN YSTOD Y GWYLIAU

Mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud gwaith rhan-amser yn ystod y tymor a'r gwyliau. Mae llawer o gyfleoedd i weithio ar y campws, ac mae digon o waith tymhorol ar gael yn y ddinas i bobl sydd am ychwanegu at eu benthyciadau.

BENTHYCIAD CYNHALIAETH

Bwriad Benthyciadau Cynhaliath yw helpu â threuliau megis llety a bwyd. Mae'r rhain yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys incwm cartref a ble mae'r myfyriwr yn dewis astudio, dysgwch fwy ar ffioedd a chyllid ar ein gwefan abertawe.ac.uk/israddedig

GRANTIAU LLYWODRAETH

Mae gan rai myfyrwyr hawl i grantiau ar sail prawf modd nad oes angen eu had-dalu er mwyn helpu â chostau byw. I wirio a yw eich mab neu ferch yn gymwys, ewch i cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk neu gov.uk/student-finance

5ED RHATAF
YN Y DU DINAS BRIFYSGOL
(Natwest Student Living Index 2017)

£398.03

y mis o'i chymharu â chost
eu gyfartalog o £535* y mis
am lety prifysgol yn y
Deyrnas Gyfunol

